| GWEINIDOGION Y DU SY'N GWEITHREDU MEWN MEYSYDD DATGANOLEDIG | |
|---|---|
| **186 – Rheoliadau Iechyd Planhigion (Cyflyrau Ffytoiechydol) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020**<br>*Dyddiad gosod yn Senedd y DU: 15 Hydref 2020* | |
| **Sifftio** | |
| Yn destun sifftio yn Senedd y DU? | Nac ydy |
| Gweithdrefn: | Cadarnhaol drafft |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin | Amh |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | Amh |
| Dyddiad y daw'r cyfnod sifftio i ben yn Senedd y DU | Amh |
| Datganiad ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C: | Papur 95 |
| Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol o dan Reol Sefydlog 30A (oherwydd eu bod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol) | Nid yw'n ofynnol |
| **Gweithdrefn graffu** | |
| Canlyniad y broses sifftio | Amh |
| Gweithdrefn | Cadarnhaol drafft |
| Dyddiad trafod gan y Cydbwyllgor ar Offerynnau Statudol | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Tŷ'r Cyffredin | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | 27/10/20 |

**Cefndir**

Bwriedir i'r Rheoliadau hyn gael eu gwneud gan Lywodraeth y DU yn unol ag adran 8(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, a pharagraff 21 o Atodlen 7 iddi.

**Crynodeb**

Diben yr offeryn hwn yw amddiffyn bioddiogelwch a chefnogi masnach drwy sicrhau bod rheolaethau ffytoiechydol effeithiol yn parhau i weithredu o fewn Prydain Fawr a rhwng Prydain Fawr a'r UE ar ddiwedd y Cyfnod Pontio ar 31 Rhagfyr 2020.

Mae Rheoliadau Iechyd Planhigion (Cyflyrau Ffytoiechydol) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020 yn gwneud newidiadau ymarferol a diwygiadau canlyniadol eraill i Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2019/2072 sy'n sefydlu amodau unffurf ar gyfer gweithredu Rheoliad (UE) 2016/2031 ar fesurau amddiffyn rhag plâu planhigion i sicrhau bod mesurau rheoli ffytoiechydol planhigion ym Mhrydain Fawr a rhwng Prydain Fawr a'r UE ar ddiwedd y Cyfnod Pontio yn parhau i weithio.

**Datganiad gan Lywodraeth Cymru**
Mae'r Cynghorwyr Cyfreithiol yn cytuno â'r datganiad a osodwyd gan Lywodraeth Cymru dyddiedig 19 Hydref 2020 ynghylch effaith y Rheoliadau hyn.

**Cytundeb Rhynglywodraethol ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)**
Mae’r crynodeb uchod a chynnwys y Memorandwm Esboniadol i’r Rheoliadau hyn yn cadarnhau eu heffaith.

Nid yw'r Cynghorwyr Cyfreithiol o'r farn bod unrhyw faterion arwyddocaol yn codi o dan baragraff 8 o'r Memorandwm ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.